Hawdd ei Ddeall

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Maniffesto Anabledd Dysgu Cymru 2026

## Sut rydyn ni eisiau i Senedd nesaf Cymru gefnogi ein gwaith



Chwefror 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:
**Maniffesto Anabledd Dysgu Cymru 2026.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Anabledd Dysgu Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.ldw.org.uk/cy

**Ebost:** policy@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 2068 1160

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio Photosymbols. Rydyn ni ar gael yma: HawddeiDdeall.Cymru

I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma: bit.ly/4adDH2R.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Amdanom ni



Mae Anabledd Dysgu Cymru yn sefydliad gydag aelodau.



Mae ein haelodau yn elusennau a sefydliadau sy’n gweithio gyda:

- pobl ag anabledd dysgu ac
- eu teuluoedd yng Nghymru.



Dydyn nhw ddim yn gwneud arian.



Rydyn ni eisiau i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi.

I wneud hyn, rydyn ni’n gweithio gyda:



- Pobl ag anabledd dysgu.



- Teuluoedd a gofalwyr.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Llywodraeth Cymru.



- Awdurdodau lleol.



- Sefydliadau pobl anabl.

# Sut rydyn ni eisiau i Senedd newydd Cymru gefnogi ein gwaith



1. Gwneud yn siŵr bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu dod o hyd i wybodaeth sy'n hawdd ei darllen a'i deall, fel Hawdd ei Ddeall.




2. Cefnogi ymgyrch Bywydau wedi'u Dwyn i gael pobl ag anabledd dysgu allan o ysbytai iechyd meddwl ac yn ôl i'w cymunedau.



3. Helpu pobl ag anabledd dysgu i gael swyddi trwy wneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu cael hyfforddwr swyddi a chyflogaeth â chymorth os ydyn nhw ei angen.



4. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl ag anabledd dysgu yn cael archwiliad iechyd blynyddol da.




5. Rhoi gwell cymorth i rieni ag anabledd dysgu fel eu bod nhw'n gallu gofalu am eu plant yn ddiogel.



6. Gwneud yn siŵr bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu cael ffrindiau a pherthnasoedd. Gwneud hi'n haws iddyn nhw fynd allan yn eu cymunedau lleol pan fyddan nhw eisiau.




**7. Gwneud yn siŵr bod gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd ddigon o arian i roi cefnogaeth dda.**




**8. Cefnogi maniffesto Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.**

Rydych chi'n gallu darllen maniffesto Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yma: [allwalespeople1st.co.uk/maniffesto-2026/?lang=cy](https://allwalespeople1st.co.uk/maniffesto-2026/?lang=cy).









Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan: www.ldw.org.uk/cy.



Neu gallwch anfon e-bost atom yn: policy@ldw.org.uk.



Neu ffonio: 029 2068 1160.

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru